OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2537

# Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001

**Adolygu penderfyniadau – Cam 2**

**8.**—(1) Caiff person y mae penderfyniad a adolygwyd yn unol â rheoliad 7 uchod yn cael ei gyfeirio ato, wneud cais i Uned Apelau Cymorthdaliadau Amaethyddol y Cynulliad Cenedlaethol ymhen heb fod yn hwyrach na 30 diwrnod yn dilyn dyddiad y llythyr yn rhoi gwybod i'r ceisydd am y penderfyniad a adolygwyd, am adolygiad pellach o'r penderfyniad hwnnw.

(2) Rhaid i gais am adolygiad pellach fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo bennu —

(a) enw a chyfeiriad y ceisydd, ac ar ba sail y ceisir yr adolygiad;

(b) y cynllun cymhorthdal y ceisir yr adolygiad mewn perthynas ag ef a'r flwyddyn IACS y cyfeiriodd y penderfyniad ati;

(c) y penderfyniad gan y Swyddfa Ranbarthol sydd i'w adolygu a'i ddyddiad;

(ch) manylion llawn y seiliau y ceisir yr adolygiad pellach arnynt; a

(d) y newid yn y penderfyniad a geisir .

(3) Mae cais o dan y rheoliad hwn i'w drin fel un sydd wedi'i wneud os daw i law'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei swyddfeydd ym Mharc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ wedi'i farcio “ar gyfer yr Uned Apelau Cymorthdaliadau Amaethyddol ”.